




Deunyddiau Cymorth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Syniadau i gefnogi CGM ym Maes
Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

Y Grŵp Oedran a Awgrymir:
plant 7-8 oed



Symbolau ffydd ac arwyddion o berthyn: Pam y maent yn bwysig?

Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol:
Cristnogaeth, Hindŵaeth, Islam



Cynghor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Cynghor Abertawe
Swansea Council

PARTNERIAETH

RE Today
Services

Mae hwn yn un o gyfres o ddeunyddiau cymorth ar gyfer CGM a luniwyd at ddefnydd athrawon, gyda'r nod o osod safonau uchel wrth astudio crefydd, gwerthoedd a moeseg. Cynigir yr adnoddau hyn i fod yn awgrymiadau i alluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â chrefydd a chred, a hynny mewn ffyrdd sy'n meithrin pedwar diben Cwricwlwm i Gymru ac yn cynnig cyfleoedd i archwilio'r themâu trawsbynciol a datblygu sgiliau disgyblaethol a sgiliau ehangach. Maent wedi cael eu hysgrifennu i gyd-fynd â'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Camau Cynnydd ym MDPH y Dyniaethau. Ni fwriedir i unrhyw beth yn y deunyddiau hyn fod yn rhagnodol. Atgoffir athrawon fod CGM i gael ei ddarparu gyda golwg ar y Maes Llafur Cytunedig Lleol ac egwyddor sybsidiaredd. Gallwch gyrchu'r gyfres o gynlluniau ac adnoddau ategol yma:

www.retoday.org.uk/rvewales

Cefnogi CGM yn Cwricwlwm i Gymru

Bwriad y deunyddiau hyn yw rhoi syniadau i athrawon a'u hysbrydoli i gefnogi CGM beirniadol, gwrthrychol a phlwrailaethol, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru a'u maes llafur cytunedig lleol. Ni fwriedir i'r deunyddiau ragnodi cynnwys, na chysiau dysgu penodol. Rydym yn annog athrawon i fod yn hyblyg, yn greadigol ac yn ddetholus wrth ddefnyddio'r deunyddiau hyn. Mae sybsidiaredd yn egwyddor allweddol yn Cwricwlwm i Gymru, felly dylai athrawon arfer barn broffesiynol, ac ymgysylltu'n feirniadol â'r deunyddiau hyn, i sicrhau bod CGM yn eu hysgol yn adlewyrchu eu cyd-destun lleol ynghyd ag anghenion y dysgwyr, ac yn bodloni gofynion statudol. Gellir addasu a diwygio'r deunyddiau, a'u defnyddio mewn modd mor ddetholus neu mor gynhwysfawr ag sy'n briodol i gyd-destun unigol pob ysgol.

Gwybodaeth am yr adnoddau hyn

Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Abertawe yn ddiolchgar am y cyllid a gafodd gan ymddiriedolaeth [Westhill Endowment](#), cyllid a'i gwnaeth yn bosibl cyflawni'r gwaith hwn.

Lluniwyd y deunyddiau hyn i gefnogi CGM yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn Cwricwlwm i Gymru. Maent yn ganlyniad i gydweithrediad rhwng CYSAG Abertawe ac RE Today Services.

Mae [RE Today Services](#) yn elusen addysgol sefydledig ac uchel ei pharch sy'n gweithio yn y DU ac yn rhyngwladol i roi addysg eang a chytbwys i blant i'w cefnogi yn y byd y maent yn byw ynddo, a hynny trwy addysgu Addysg Grefyddol o ansawdd uchel mewn ysgolion. Ysgrifennwyd y deunyddiau hyn gan Lat Blaylock, golygydd y cylchgrawn *RE Today*, a Chynghorydd Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol, ac Angela Hill, sy'n Gynghorydd Cenedlaethol i RE Today yng Nghymru.

Jennifer Harding-Richards, Ymgynghorydd ar Addysg Grefyddol i'r awdurdodau lleol yn rhanbarth Partneriaeth, yw cyfarwyddwr y prosiect ar gyfer y deunyddiau cymorth hyn. Gellir cysylltu â hi trwy anfon neges e-bost at: Jennifer.Harding-Richards@swansea.gov.uk

Gobeithio y bydd yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol ac yn ddifyr i'w defnyddio. Croesewir adborth adeiladol. Byddwn yn ddiolchgar iawn bob amser am enghreifftiau o waith dysgwyr a luniwyd trwy ddefnyddio'r syniadau yn y deunyddiau hyn.

Teitl: Symbolau ffydd ac arwyddion o berthyn: Pam y maent yn bwysig?

Y Grŵp Oedran a Awgrymir: plant 7-8 oed

Crefyddau a bydolygon: Hindŵaeth, Cristnogaeth, Islam

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ofyniad statudol yn Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae CGM yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r Maes yn cynnwys Daearyddiaeth; Hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu nifer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, er bod ganddynt eu corff penodol o wybodaeth a sgiliau eu hunain. Mae'r deunyddiau cymorth hyn yn canolbwyntio ar CGM.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i CGM fod yn feirniadol, yn wrthrychol ac yn blwraliaethol: mae'r deunyddiau cymorth yn cymhwyso'r egwyddorion hyn.

Gwybodaeth am yr adnodd hwn:

Mae Cwricwlwm i Gymru yn gosod astudiaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r deunyddiau cymorth hyn yn rhoi cynlluniau ymarferol o ansawdd uchel i athrawon, sy'n amlygu dysgu da ym maes CGM ynghylch rhai o'r ystyron a fwriedir o ystod o symbolau. Mae'r adnoddau'n ystyried symbolau crefyddol a'u hystyron ar gyfer Hindŵaeth, Cristnogion a Mwslimiaid, a chaiff plant gyfle i ddyfnhau eu dealltwriaeth o rai cysyniadau crefyddol. Byddant yn meddwl am y modd y mae symbolau'n dangos rhywbeth pwysig i ni am hunaniaethau, a byddant yn ystyried pa symbolau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd y gwaith yn gosod safonau uchel ym maes CGM trwy herio plant i gofio gwybodaeth gyfoethog newydd ac i feddwl am amrywiaeth, gan nodi tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng crefyddau. Mae'r gwaith yn enghraifft annatod o le CGM ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn Cwricwlwm i Gymru 2022.

Amcangyfrif o'r amser y bydd yn ei gymryd i gyflawni'r gwaith hwn (mewn oriau): 8-10 awr o amser addysgu. Byddwch yn ddetholus a gwnewch y gwaith y mae angen i'ch ysgol ei wneud yn fanwl, yn hytrach nag ymdrin â gormod o gynnwys mewn modd arwynebol. Ym maes CGM, mae ar y dysgwyr angen cyfleoedd i fyfyrion ddwfn ar gwestiynau a syniadau mawr: weithiau, gall fod yn ddoeth caniatáu i'r dysgwyr 'aros yn hirach a chloddio'n ddyfnach'.

Ble y mae hyn yn ffitio?

Gall y cynllun hwn adeiladu ar waith CGM blaenorol, er enghraifft dysgu beth yw crefydd, a dysgu am leoedd, arwyddion a symbolau cysegredig. Atgyfnerthwch y syniad bod crefyddau'n niferus ac yn debyg ac yn wahanol. Gall athrawon barhau i archwilio syniadau am symbolaeth gyda dysgwyr mewn unedau dilynol. Mae cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau yn amlwg mewn sawl man yn yr uned hon, a gellir ystyried hyn yn fodd o weithio ochr yn ochr â neu mewn darpariaeth integredig ag Astudiaethau Cymdeithasol, Hanes a Daearyddiaeth. Mae yna hefyd gysylltiadau llythrennedd da, lle mae plant yn dechrau dysgu am iaith ffigurol. Holl ddiben yr uned yw helpu plant i weld y tu hwnt i wyneb gwrthrych, arwydd neu air, a chwilio am ystyron dyfnach. Mae symbolau crefyddol wedi'u trwytho â chanrifoedd o ystyr i filiynau o bobl, felly mae'n bwysig bod plant yn gweld arwyddocâd symbol – mae'n llawer mwy na bathodyn neu logo!

Mae tair crefydd yn llawer i blant 7-8 oed ymdrin â nhw, felly daliwch ati i bwysleisio gwerth gweld y gwahaniaethau'n glir. Mae 'prif symbol' pob ffydd yn ffordd dda o oleuo dealltwriaeth y plant. Ewch ati i feithrin gwybodaeth ar ffurf dilyniant gofalus fel bod y dysgwyr yn gallu – er enghraifft – didoli arteffactau ar fwrdd yn ôl crefydd, a siarad am ystyron, tebygrwydd a gwahaniaethau.

Cwricwlwm i Gymru: Yr hyn sy'n bwysig (Pedair Blaenoriaeth MDPH y Dyniaethau)	Sut y mae'r deunyddiau hyn yn cysylltu â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig?
Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol	- Bydd y dysgwyr yn archwilio crefydd fyw, yn y fan a'r lle, gan gynnwys enghreifftiau o Gymru. - Bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth am symbolau; eu hystyr a'r modd y bu iddynt ddechrau a datblygu mewn tair crefydd wahanol yn y byd sydd ohoni.
Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol.	- Bydd y dysgwyr yn dysgu am gymhlethdodau hunaniaeth grefyddol, perthyn, gwerthoedd ac argyhoeddiadau, gan ddysgu sut i awgrymu ystyron mewn perthynas â symbolau gwahanol. - Bydd y dysgwyr yn dod i wybod am ystyron gwahanol a safbwyntiau amrywiol mewn perthynas â symbolau o dair crefydd
Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac yn cael eu llunio gan weithredoedd a chredoau dynol.	- Bydd y dysgwyr yn darganfod y modd y mae pobl o grefyddau amrywiol ac sy'n meddu ar fydolgon gwahanol yn mynegi ac yn byw eu credoau a'u hargyhoeddiadau - Bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth am y cymysgedd cymhleth o grefyddau sydd yn ein cymunedau ac yn y DU, ac yn magu dealltwriaeth ohonynt.
Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.	- Bydd y dysgwyr yn dysgu am amrywiaeth ac yn ystyried yr hyn y mae'n ei olygu i bobl â ffydd a bydolwg gwahanol ymgysylltu â syniadau a materion mawr - Bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth am werthoedd sydd o bwys i Hindŵiaid, Mwslimiaid a Christnogion, ac yn magu dealltwriaeth ohonynt.

Themâu, sgiliau a dibenion

Yn unol â gofynion y canllawiau CGM, mae'r deunyddiau cymorth hyn wedi cael eu llunio i gyd-fynd â model o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm sy'n ymgorffori cyfleoedd priodol i ddysgu am ac ystyried themâu trawsbynciol yn Cwricwlwm i Gymru. Mae'r themâu trawsbynciol hyn fel a ganlyn: gyrfaedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith; hawliau dynol; amrywiaeth; cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac addysg cydberthynas a rhywioldeb. Rydym hefyd wedi rhoi sylw yma i bwysigrwydd sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â'r sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Mae'r holl faterion croestoriadol hyn wedi'u hymgorffori yn y modd y mae'r deunyddiau cymorth hyn wedi'u creu.

Cliciwch ar y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/>

Egwyddorion cynnydd CGM ar waith:	Cyfrannu at gynnydd ym maes CGM:
Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth.	- Bydd y dysgwyr yn dod i wybod am amrywiaeth grefyddol, gan feithrin gwybodaeth gyfoethog am symbolau a hunaniaethau Hindŵaidd, Cristnogol a Mwslimaidd - Bydd y dysgwyr yn cael eu herio i fynd ati o'u pen a'u pastwn eu hunain i ddefnyddio eu gwybodaeth gynyddol i nodi ystyron a gwneud synnwyr o debygrwydd a gwahaniaethau
Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.	- Yn syml, bydd y dysgwyr yn defnyddio dulliau penodol o astudiaethau crefyddol i wneud mwy o synnwyr o'r byd - Bydd y dysgwyr yn cael profiad o ddefnyddio disgyblaethau gwahanol yn eu hastudiaethau CGM, gan gynnwys dulliau diwinyddol, cymdeithasegol a hanesyddol
Mireinio sgiliau, a magu soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso.	- Bydd y dysgwyr yn ymarfer sgiliau awgrymu ystyron, gwneud synnwyr o ddeunyddiau crefyddol a dehongli credoau a gwerthoedd ar lefelau sy'n briodol i'w hoedran - O amrywiaeth eang o ddulliau dysgu, bydd y dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o wneud synnwyr o grefyddau a chredoau, ac yn esbonio'r hyn sy'n bwysig am symbolau cyffredin.
Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd.	- Anogir y dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng crefyddau a bydolygon gwahanol - Bydd y dysgwyr yn cael eu herio i ddefnyddio eu dysgu mewn lleoliadau newydd, er enghraifft trwy awgrymu sut y gellid defnyddio symbolau mewn adeiladau cysegredig neu yng nghartrefi credinwyr, a'r hyn y gallent ei olygu.
Meithrin effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr.	- Bydd y dysgwyr yn dysgu sut i feithrin a defnyddio gwybodaeth gyfoethog am symbolau Hindŵaidd, Mwslimaidd a Christnogol. - Bydd y dysgwyr yn dysgu disgrifio ac esbonio crefyddau a bydolygon, gan fynd ati i gymhwyso syniadau mewn modd creadigol drostynt eu hunain; byddant yn gwneud hyn trwy, er enghraifft, awgrymu pa ddefnydd o symbolau sy'n mynegi eu hystyron yn y modd mwyaf eglur.

Mae CGM yn y deunyddiau hyn yn cynnwys meithrin gwerthoedd, rhinweddau ac agweddau cadarnhaol sy'n cyfrannu at lesiant y dysgwyr:

- Cariad at ddysgu:** mwynhau darganfod syniadau newydd am grefydd a chred, sy'n cynnwys dadgodi symbolau.
- Parch at bawb:** wynebu'r heriau y mae CGM yn eu cyflwyno o ran datblygu parch at bawb, a hynny trwy, er enghraifft, wrando, cynnal deialog a chydabod y gwerthoedd ar gyfer Mwslimiaid, Hindŵiaid a Christnogion sydd y tu ôl i symbolau cyffredin.
- Bod â meddwl agored:** parodrwydd i fod yn agored i syniadau newydd, er enghraifft y pwys a roddir mewn crefyddau gwahanol ar dduwiau a duwiesau (Hindŵaeth), proffwydi (Islam), ac Iesu a'i ddilynwyr (Cristnogaeth)
- Gwerthfawrogiad a rhyfeddod:** datblygu dirnadaeth mewn perthynas â chwestiynau ysbrydol, ac ymateb i'r gwaith yn yr uned hon drwyddi draw o archwilio symbolau ac ystyron.

Dysgu blaenorol	Geirfa CGM gyfoethog	Adnoddau i athrawon eu harchwilio – ni fydd arnoch angen y rhain i gyd, ond maent yn dangos ystod o bosibiliadau
Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r dysgwyr yn meddu ar y canlynol: Rhywfaint o wybodaeth flaenorol am y tair crefydd, a pheth dealltwriaeth ohonynt. Atgoffwch nhw o waith astudio cynharach. Defnyddiwch ddulliau dysgu adalw i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu cyrchu eu CGM o'r babanod wrth iddynt fynd i'r afael â'r pwnc newydd hwn yn fanylach.	Bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion sy'n ymwneud â'r canlynol: Arwydd Symbol Ystyr Ystum Trosiad Delwedd/ delweddaeth Arteffactau Hindŵaidd: Y Symbol Aum Arwyddion o ymroddiad i dduwiau a duwiesau Arteffactau Cristnogol: Croesau, croes balmwydd, bynen y Grog, cymeriadau'r Geni, cardiau Pasg/Nadolig Arteffactau Mwslimaidd: Mat gweddi, topi, Qur'an, stand Qur'an, Seren a Lleud Gilgant, cardiau Eid	Adnoddau • Symbol/logo yr ysgol • Detholiad o'r hoff lyfrau gwybodaeth syml am Hindŵaidd, Cristnogion a Mwslimiaid. • Arteffactau Cristnogol (llyfr athrawon da ar gyfer gwaith ar y Groes Gristnogol yw <i>A-CROSS the world</i>, a ysgrifennwyd gan Martyn Payne a Betty Pedley (ac sydd i'w gael yn y mwyafrif o siopau llyfrau da) • Arteffactau Mwslimaidd: mat gweddi, bathodynau a sticeri car gyda'r lleud a'r sêr arnynt, lluniau a delweddau, stand ar gyfer y Qur'an, cwmrawd ar gyfer cyfeiriadau gweddio. • Arteffactau Hindŵaidd: fersiynau gwahanol o'r Symbol Aum, murtis (cerfluniau) o dduwiau a duwiesau, lampau <i>diva</i>, hambwrdd Aarti, cardiau Diwali. • Bag teimlo • Pecynnau ffotograffau/pecynnau lluniau o ddulliau cyfathrebu dieiriau ar gyfer Hindŵaeth, Cristnogaeth ac Islam. • Adnoddau ar gyfer Penblwyddi (cardiau, canhwyllau, anrheg esgus) • Ciwiau gweledol ar gyfer dathliadau, gan gynnwys y Cynhaef, y Pasg, y Nadolig, Eid, Ramadan, Diwali. • Storiâu Cristnogol: Arch Noa, Daniel a'r Llewod, Dafydd a Goliath, dyddiau olaf Iesu • Storiâu Mwslimaidd: Noson y Grym, Muhammad wrth byrth Makkah • Storiâu Hindŵaidd: Achub Sita (Storiâu Diwali) • Caneuon neu gerddoriaeth Gristnogol, Hindŵaidd a Mwslimaidd. • Mae gan y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol (NATRE) fan cychwyn gwych ar y we ar gyfer y materion hyn: mae http://www.natre.org.uk/about-natre/projects/spirited-arts/introduction/ yn galluogi dysgwyr i weld a barnu nifer o weithiau celf gan bobl ifanc ar syniadau crefyddol ac ysbrydol allweddol. • Mae Addysg Grefyddol BBC Bitesize ar gyfer CA2 hefyd yn fan cychwyn da: • Y porth gorau ar gyfer gwefannau Addysg Grefyddol yw: www.reonline.org.uk • Mae gan TrueTube fideos defnyddiol ar gyfer Addysg Grefyddol: https://www.truetube.co.uk/ Teithiau Rhithwir: • Mae CYSAG Cumbria yn rhannu ei adnoddau rhagorol yn rhad ac am ddim ar-lein – dolenni i ddwsinau o deithiau rhithwir da o amgylch adeiladau cysegredig. https://www.cdec.org.uk/use-our-resources/films-and-virtual-tours/virtual-tours/ • Mae Birmingham Faith Visits yn brosiect gwych: 18 o ffilmau byr o chwe adeilad crefyddol pwysig yn Birmingham, pob un yn addas ar gyfer plant mewn ysgolion cynradd, ynghyd â llawer o adnoddau cymorth: https://birmingham-faith-visits.theartsociety.org/ • I gael rhagor o wybodaeth, rhowch gynnig ar https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/places-of-worship-voices-from-religion-and-worldviews/ Adnoddau printiedig • <i>Talking Pictures</i>: dysgu gweledol am Iddewon, Cristnogion a Mwslimiaid – RE Today • <i>What happens in?</i> Chwe darlun trawstoriadol hardd o brif adeiladau crefyddol ar gyfer y bwrdd gwyn ac ar ffurf cardiau poster, ynghyd â llyfr syniadau gan RE Today • Y gyfres Inspiring RE: <i>Hindus, Muslims, Christians, Living without God</i>, a olygwyd gan Fiona Moss, RE Today Storiâu • Gellir dod o hyd i ragor o enghreifftiau o storiâu ffydd yn siop ar-lein NATRE yn https://shop.natre.org.uk/category/.stories.isla.pr Llawer o storiâu crefyddol rhad ac am ddim ar gael o'r man cychwyn hwn, ynghyd â syniadau dysgu da Arteffactau ar gyfer AG: mae cwmnïau sy'n cyflenwi ystod o wrthrychau yn cynnwys • REonDemand, https://www.reondemand.co.uk/ • Religion in Evidence www.tts-group.co.uk/primary/re/ • Mae'r rhai hynny sy'n cyflenwi arteffactau i gymunedau ffydd yn aml yn ffynonellau dilys a rhad o 'realia' crefyddol. Er enghraifft, India Bazaar, a leolir

		yng Nghaerlŷr, llawer o ddeunyddiau Hindŵaidd (a rhai ar gyfer crefyddau eraill hefyd): https://www.indiabazaar.co.uk/religiouspoojawedding-item
Cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr (Mae CGM yn cyfrannu at y cyfrifoldeb ysgol gyfan hwn) • Ysbrydol: Trafod cwestiynau allweddol am ystyr sydd wrth wraidd traddodiadau ac arferion crefyddol, a myfyrio arnynt. • Moesol: Ystyried yr hyn y mae'n ei olygu i barchu eraill, gan gynnwys aelodau o'r gymuned grefyddol. • Cymdeithasol: Mynegi eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill am symbolaeth mewn crefydd ac yn eu bywydau eu hunain. • Diwylliannol: Dod i gysylltiad â phobl, llenyddiaeth, celfyddydau ac adnoddau o ddiwylliannau Hindŵaidd, Cristnogol a Mwslimaidd.		

Sut y mae'r deunyddiau cymorth hyn yn helpu i ddatblygu ymgysylltiad y dysgwyr â'r themâu trawsbynciol?

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#cross-cutting-themes>

- **Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:** byddwn yn ystyried enghreifftiau o symbolau o wledydd a diwylliannau gwahanol
- **Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth:** byddwn yn siarad am y modd y gall symbolau fynegi hunaniaeth, a byddwn yn ystyried ffyrdd amrywiol o ddefnyddio a dehongli rhai symbolau.
- **Addysg cydberthynas a rhywioldeb:** gall astudio symbolau ein helpu i ddeall eraill a meithrin cysylltiadau cadarnhaol a pharchus rhwng unigolion a chymunedau. Bydd y dysgwyr yn deall y modd y gall symbolau helpu pobl i deimlo eu bod yn perthyn.

DISGWYLIADAU O'r deunyddiau cymorth hyn:	
Bydd bron pob dysgwr yn gallu gwneud y canlynol:	• Nodi rhai symbolau, ystumiau a geiriau crefyddol • Casglu gwybodaeth am dair crefydd wahanol • Siarad am ei wrthrychau arbennig ei hun • Disgrifio rhai arteffactau crefyddol drosto ei hun mewn gweithgareddau siarad neu ysgrifennu, a hynny gan wneud defnydd cywir o eirfa newydd (dau air newydd o bob crefydd)
Bydd mwyafrif y dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:	• Nodi ac enwi rhai symbolau crefyddol allweddol, a rhai gweithredoedd symbolaidd mewn cyd-destun crefyddol • Defnyddio eu gwybodaeth newydd i ddisgrifio symbolau a'u hystyron • Siarad am rai o'r credoau sy'n sail i'r symbolau hyn • Ymateb yn sensitif i 'wrthrychau arbennig' tair crefydd • Defnyddio rhai enghreifftiau o iaith symbolaidd i siarad am symbolau sy'n golygu llawer iddynt
Bydd llawer o'r dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:	• Disgrifio gwerthoedd o'r tair crefydd, gan gynnwys gwerthoedd symbolau allweddol • Nodi a disgrifio credoau a syniadau tebyg a fynegir yn symbolaidd mewn cyd-destunau crefyddol neu seciwlar gwahanol trwy symbolau, gweithredoedd a geiriau • Gwneud cysylltiadau rhwng eu 'gwrthrychau arbennig' eu hunain a rhai arteffactau crefyddol
Bydd rhai o'r dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:	• Defnyddio eu gwybodaeth i fynegi, yn annibynnol, ystyron symbolau mewn ffyrdd gwahanol • Defnyddio syniadau megis delweddaeth, symbolaeth, ystum neu iaith y corff drostynt eu hunain • Mynd ati mewn modd syml i ddehongli ystod amrywiol o syniadau am symbolau allweddol mewn tair crefydd

Asesu a chyflawniad

Syniadau posibl ar gyfer casglu tystiolaeth o gynnydd a chyrhaeddiad

Gellir asesu cynnydd a chyrhaeddiad y dysgwyr trwy dasg asesu derfynol bosibl:

- Gofynnir i'r dysgwyr gwblhau templed siâp lleud a seren a fydd yn dangos symbolau ac ystyr o'r ffydd Fwslimaidd. Bydd angen i'r templed gynnwys syniadau a grëir trwy gyfrwng yr uned hon, a gofynnir i'r plant ddarparu rhai o'u syniadau symbolaidd eu hunain, ynghyd ag esboniadau arnynt. A fyddai'r symbol hwn yn addas i'w arddangos mewn mosg? Gosodwch y 30 o ddyluniadau lleud a seren a wnaed gan y dosbarth i ffurfio symudyn nenfwd.
- Gofynnir i'r dysgwyr gwblhau templed siâp croes a fydd yn dangos symbolau ac ystyr o'r ffydd Gristnogol. Bydd angen i'r templed gynnwys syniadau a grëir trwy gyfrwng yr uned hon, a gofynnir i'r plant ddarparu rhai o'u syniadau symbolaidd eu hunain, ynghyd ag esboniadau arnynt. A fyddai'r groes hon yn addas i'w harddangos mewn addoldy Cristnogol? Gosodwch y 30 o groesau a wnaed gan y dosbarth i ffurfio symudyn nenfwd.
- Gofynnir i'r dysgwyr gwblhau templed wedi'i siapio fel y symbol Aum a fydd yn dangos symbolau ac ystyr o draddodiadau Hindŵaidd. Bydd angen i'r templed gynnwys syniadau a grëir trwy gyfrwng yr uned hon, a gofynnir i'r plant ddarparu rhai o'u syniadau symbolaidd eu hunain, ynghyd ag esboniadau arnynt. A fyddai'r symbol hwn yn addas i'w arddangos mewn mandir Hindŵaidd? Crëwch symudyn nenfwd o'r gwaith a wnaed gan y plant i gyd.
- Gofynnir i'r dysgwyr ddylunio a gwneud taflen sy'n cynnwys darluniau a thestun i egluro rhai symbolau o'r ffydd Fwslimaidd, rhai o'r traddodiadau Hindŵaidd a rhai o'r ffydd Gristnogol. Bydd yn cael ei llunio i greu taflen wybodaeth a fydd yn addas i blant Blwyddyn Un.
- Gwnewch gyswllt â llythrennedd, a gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio ffrâm ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda i gofnodi eu dysgu allweddol.

Pa symbolau bob dydd y gallwn sylwi arnynt? Beth yw eu hystyr? Is-lensys: Hunaniaeth a pherthyn, chwilio am ystyr a diben			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Symbolau o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: Symbolau/symbolaeth Logo Arwyddlun Cymuned Eglwys/Mosg/ Mandir Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	- Dywedwch wrth y dysgwyr fod symbolau yn aml yn debyg i negeseuon wedi'u codio – mae'n rhaid i ni weithio allan eu hystyr. Anogwch y dysgwyr i nodi enghreifftiau o symbolau o fywyd a phrofiad yng Nghymru trwy ofyn iddynt roi esiamplau o symbolau o Gymru neu o Gymreictod. Mae'n bosibl y byddant yn awgrymu syniadau megis crysau rygbi, gwisg Gymreig (ar Ddydd Gŵyl Dewi), y ddraig goch, cennin a chennin Pedr. Trafodwch rai symbolau/arwyddluniau cenedlaethol, yr hyn y maent yn ei olygu, a'r modd y daethant i fodolaeth. Adnodd da i gefnogi hyn yw https://www.wales.com/about/culture/national-symbols-wales – byddai cwis hwyliog yn helpu'r dysgwyr i feddwl ac i ddysgu rhai ffeithiau - Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis eu hoff arwyddlun/symbol. Gallant dynnu llun y symbol ac ysgrifennu tair brawddeg i grynhoi eu gwybodaeth a rhoi rhesymau dros eu dewis. Dyma rai awgrymiadau ar gyfer dechrau brawddegau: Mae'r symbol hwn o Gymru yn ... Dw i wedi dysgu bod ... Dw i wedi ei ddewis am ... - Edrychwch gyda'ch gilydd ar symbol neu logo'r ysgol a siaradwch am y modd y mae'r symbol hwnnw'n cynrychioli'r plant a'r ysgol, a pham. - Gofynnwch i'r plant ystyried symbolau eraill sy'n dangos eu bod yn perthyn i rywbeth neu i grŵp (e.e. Afancod, Enfysau, clwb nofio, logos chwaraeon, arwyddion ar gyfer eu hoff fwydydd, diodydd a dillad, a logos eraill) a chofnodwch y rhain, mewn grwpiau, ar ddiagramau gwe corryn – gall hon fod yn gêm timau os dymunwch. - Ar ffurf dosbarth cyfan, rhestrwch yr holl eiriau sy'n disgrifio sut yr ydym yn teimlo am fod yn rhan o'r grwpiau hyn. - Gwnewch waith tebyg ar faner Cymru – ei hanes, y defnyddiau gwahanol ohoni, a'r symbolaeth. Gallai hon fod yn dasg gwaith cartref, lle bydd y dysgwyr yn cadw eu llygaid ar agor am faner Cymru. Ble y byddant yn ei gweld (e.e. mewn siopau, mewn hysbysebion, ar grysau T, ar adeiladau cyhoeddus)? Ei hystyried yn symbol o falchder a gwerthfawrogiad o'n cenedl (cyfleoedd da ar gyfer cysylltiadau â Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Cymdeithasol a'r Celfyddydau Gwledol) - Siaradwch am y modd y mae ein cyfenwau yn cynrychioli ein teulu, a'r modd yr ydym yn rhan o'r teulu hwnnw a hefyd yn rhan o'r teulu yn yr ysgol. Gartref, gallai'r dysgwyr ymchwilio i hanes eu cyfenwau gyda chymorth rhieni/gofalwyr. A ydym yn rhan o unrhyw deuluoedd eraill? (e.e. 'teuluoedd' crefyddol yn yr eglwys neu'r mosg?) A ydym yn teimlo	Defnyddio'r geiriau cywir i nodi symbolau yn y byd o'u cwmpas (y mwyafrif o blant 8 oed) Disgrifio o leiaf un symbol ac egluro ei ystyr (y mwyafrif o blant 8 oed) Ymchwilio i pam mae symbolau'n bwysig, a sut y maent yn helpu i ddangos syniadau am greddau, gwerthoedd a pherthyn (llawer o blant 8 oed) Awgrymu ystyron ar gyfer symbolau ac arwyddluniau (llawer o blant 8 oed) Dehongli ystod o ystyron posibl ar gyfer symbolau, a safbwyntiau gwahanol yn eu cylch (rhai plant 8 oed)	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

	ein bod yn perthyn i Gymru? (Mae i lawer o gyfenwau gysylltiad hanesyddol.) A ydym yn teimlo ein bod yn perthyn i'r 'teulu dynol' cyfan? Efallai y byddwch yn dymuno darllen stori i'r dosbarth a fydd yn ysgogi trafodaeth am fod yn rhan o gymuned, e.e. mae <i>Golden Domes and Silver Lanterns</i> gan Mehrdokht Amini yn ymwneud â'r mosg, symbolau a chymuned.		
--	---	--	--

Beth y gallwn ei ddysgu am symbolau a symbolaeth? (Cristnogaeth ac Islam)

Is-lensys: chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn

Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Symbolau o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: Symbolau Symbolaeth Y groes Y Qur'an Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	- Atgoffwch y plant fod symbolau weithiau'n debyg i neges wedi'i chodio – mae'n rhaid i ni weithio allan eu hystyr. Gan ddefnyddio bag teimlo, gadewch i'r plant archwilio ystod o groesau Cristnogol â'u bysedd. Gofynnwch pa symbolau sy'n cael eu hymgorffori ynddynt, a beth y maent yn ei symboleiddio. Am beth y mae'r croesau yn ein hatgoffa? Pa gredoau y maent yn eu mynegi? Edrychwch ar amrywiaeth o arddulliau o'r groes Cristnogol. - Gofynnwch yr un cwestiynau gan ddefnyddio symbol Islam (seren a lleuad gilgant), mat gweddi Mwslimaidd, Topi a stand Qur'an. Gall un plentyn archwilio'r rhain yn y bag teimlo, gan siarad â'r dosbarth am yr hyn y mae'n ei deimlo. Am beth y maent yn ein hatgoffa? - Os ydych am ddangos copi o'r Qur'an i'r plant, yna mae'n dda amlygu parch yn y ffyrdd yr ydych yn trin y llyfr. Siaradwch am ystyr arwyddion parch – maent hefyd yn ystumiau symbolaidd. Mae'r llyfr yn cael ei lapio mewn sidan a'i gadw ar silff uchel. Mae'r dwylo'n cael eu golchi cyn ei gyffwrdd. Dadgodiwch y symbolau! - Trefnwch i'r plant wrando ar eiriau emyn Cristnogol (enghraifft dda fyddai 'Cariad Crist' yn <i>Caneuon Ffydd</i>, ond byddai llawer o rai eraill yn addas). Gofynnwch i'r plant fynd ati i ail-greu'r gân mewn llun creadigol ac yna rannu rhesymau dros eu delweddau â'r dosbarth. Gallai grŵp arall ddefnyddio symudiadau/dawns i archwilio'r ystyr – math arall o symbolaeth. - Trafodwch y modd y gall iaith, cerddoriaeth, gwrthrychau a symudiad fod yn symbolaidd: ystyron cudd sy'n cael eu dehongli'n wahanol, codau y gallwn eu datrys os ydym yn meddwl. Pan fydd yr arteffact wedi cael ei dynnu allan o'r bag, gofynnwch gwestiynau megis: - I beth y mae'n debyg? - O beth y mae wedi cael ei wneud? - Pwy a fyddai'n ei ddefnyddio? - Sut y byddai aelodau'r ffydd sy'n ei ddefnyddio yn ei drin? - Sut y dylem ni ei drin?	Defnyddio'r geiriau cywir i adnabod symbolau a'u paru â'r crefyddau a astudiwyd (y mwyafrif o blant 8 oed). Archwilio ac ymchwilio i ystyron a phwysigrwydd y symbolau crefyddol allweddol (y mwyafrif o blant 8 oed) Deall sut y gall symbolau helpu i roi ymdeimlad o hunaniaeth i bobl a chymunedau (rhai plant 8 oed) Deall y gall symbolau fod ar sawl ffurf, gan gynnwys delweddau, gwrthrychau, gweithredoedd, a medru rhoi enghreifftiau (y mwyafrif o blant 8 oed) Dehongli amrywiaeth o symbolau, gan roi awgrymiadau rhesymegol am eu hystyr (rhai plant 8 oed)	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

--	--	--	--

Digwyddiadau symbolaidd: beth y maent yn ei olygu? Is-lensys: Chwilio am ystyr a diben, taith bywyd			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Symbolau o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: symbolau dathliad addoliad Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydlwng arall at yr astudiaeth.	Beth yr ydym yn ei wybod am symbolau a chrefyddau? - Ystyriwch adeg arbennig megis pen-blwydd neu fedydd, a'r modd y mae'n cael ei ddathlu: rhannu bwyd, rhoi cardiau sy'n defnyddio iaith, a chyflawni gweithredoedd i symboleiddio'r diwrnod, megis rhoi anrhegion o bosibl. Gofynnwch y cwestiwn hwn: Ai dim ond cacen yw'r gacen? Ai dim ond dŵr yw'r dŵr? Ai dim ond goleuni yw'r gannwyll? (Mae hyn yn ysgogi rhai plant i fynegi eu dealltwriaeth eu hunain o symbol – nid dim ond cacen, goleuni, dŵr!) - Gofynnwch i'r plant rannu profiad o amser arbennig a'u hatgofion – diwrnod 'cofio' blynyddol a fyddai orau ar gyfer hyn. - Beth sy'n digwydd ar y diwrnod hwnnw sy'n peri i ni wybod ei fod yn arbennig a bod yna ystyr i'r diwrnod? A yw'r pethau hyn yn symbolau o'r diwrnod pwysig hwnnw? - Efallai y gallai'r athro neu'r cynorthwydd addysgu rannu pedwar neu bum symbol o ddiwrnod arbennig yn eu bywyd a gofyn i'r plant beth yw eu gwerth – mwy na phunnau neu geiniogau? A gofynnwch i'r plant pa rai y maent yn meddwl a allai 'olygu'r mwyaf'. - Defnyddiwch luniau, arteffactau neu arddangosiadau (os ydynt yn briodol ac yn barchus) i ddangos i'r dysgwyr enghreifftiau o symbolau sy'n ddelweddu (e.e. symbol y seren a'r lleuad ar gyfer Islam ar ffurf delwedd, arwydd y groes i Gristnogion ar ffurf gweithred symbolaidd, a lamp <i>diva</i> ar gyfer Hindŵiaid). Eglurwch y gall symbolau fod ar ffurfiau gwahanol. Gofynnwch am syniadau o ran enghreifftiau eraill o symbolau sy'n ddelweddu, yn wrthrychau neu'n weithredoedd. - Gwahoddwch y plant i gofio dysgu blaenorol am ddathliadau neu addoliad Cristnogol, Mwslimaidd a/neu Hindŵaidd. Bydd hyd a lled y gweithgaredd hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar yr hyn y mae'r dysgwyr eisoes wedi'i ddysgu. Ystyriwch un ar y tro, gan ddefnyddio lluniau perthnasol i ysgogi'r cofio ac i arwain y drafodaeth. Er enghraifft, efallai fod y plant wedi dysgu am symudiadau gweddi (<i>rakat</i>) i Fwslimiaid, Diwali i Hindŵiaid neu'r Cymun Bendigaidd i Gristnogion. Dangoswch luniau o symbolau allweddol sy'n deillio o ddwy enghraifft, o leiaf, gyda phob un o grefydd wahanol. - Anogwch y dysgwyr i feddwl am y modd y mae'r symbolau'n gweithio yn rhan o'r addoliad neu'r dathliad, a'r hyn y maent yn ei olygu. Anogwch nhw i siarad am debygrwydd a gwahaniaethau rhwng crefyddau gwahanol, e.e. lampau Diwali mewn Hindŵaeth a chanhwyllau mewn Cristnogaeth, rhannu bwyd, ac ati. Byddai clipiau o gyfres y BBC <i>My Life My Religion</i>, yn ogystal ag o'r adnodd <i>What Happens In ...?</i>, yn cefnogi'r gweithgaredd hwn yn dda.	Cofio ffeithiau o ddysgu blaenorol am ddelweddu, bwydydd neu ystumiau symbolaidd (y mwyafrif o blant 8 oed). Rhoi esiamplau o'r modd y gellir defnyddio bwyd, gweithredoedd ac ystumiau symbolaidd, er enghraifft i gofio am ddigwyddiadau pwysig (y mwyafrif o blant 8 oed) Defnyddio eu prosesau meddwl am symbolau'r crefyddau y maent eisoes yn gyfarwydd â nhw i ffurfio barn am ystyr a phwysigrwydd y symbolau hyn (rhai plant 8 oed) Awgrymu ystyron ar gyfer symbolau o bwysigrwydd personol, datblygu empathi a llunio barn resymegol (rhai plant 8 oed)	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

Pa adegau arbennig yr ydym yn eu dathlu? Sut a pham y mae symbolau yn gwneud gwahaniaeth mewn dathliadau? Is-lensys: Chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Symbolau o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: Symbolau Dathliadau Gwyliau Adegau arbennig Cymuned Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	Beth yr ydym yn ei wybod am symbolau a dathliadau? Beth y gallwn ei ddarganfod? - Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am adegau sy'n arbennig iddynt. Rhewch gyfle iddynt siarad mewn grwpiau bach am adegau arbennig yn eu bywydau. 'Nawr gofynnwch iddynt ddewis adeg sy'n arbennig iddynt fel y gallant ysgrifennu amdani. Dyma awgrymiadau ar gyfer ffrâm ysgrifennu: Fy hoff adeg arbennig yw ... Mae'r adeg hon yn arbennig o achos ... I ddangos bod hon yn adeg arbennig, rwyf i/rydym ni ... Rwy'n treulio'r adeg arbennig hon gyda ... Anogwch greadigrwydd trwy ofyn i'r dysgwyr dynnu llun – efallai, i gynnig her, y gallent ddylunio symbol neu arwyddlun i grynhoi'r adeg arbennig hon. - Bydd y dysgwyr yn darganfod pa adegau arbennig sy'n cael eu dathlu mewn crefyddau gwahanol ac yn siarad am y modd y mae dathliadau'n cael eu cynnal. Byddant yn sylwi bod adegau arbennig yn defnyddio symbolau – dangoswch luniau neu glipiau byr i'r dysgwyr o Fwslimiaid, Cristnogion a/neu Hindŵiaid yn dathlu adegau arbennig. Mae tudalennau <i>My Life, My Religion</i> y BBC yn ardderchog ar gyfer hyn, e.e. Hindŵaeth: https://www.bbc.co.uk/programmes/p02n5j6z, Cristnogaeth: https://www.bbc.co.uk/teach/class-clips-video/religious-studies-ks2-my-life-my-religion-christianity/zimmvk7, Islam: https://www.bbc.co.uk/teach/class-clips-video/religious-studies-ks2-my-life-my-religion-islam/znm47h - Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrir ar sut a pham y cynhelir pob un o'r dathliadau. Pa symbolau sy'n cael eu defnyddio? Sut? Beth y maent yn ei olygu? - I annog y dysgwyr i nodi enghreifftiau o fywyd a phrofiad Cymreig, ewch, os yn bosibl, i addoldy lleol a siaradwch am yr adegau arbennig sy'n cael eu dathlu yno (e.e. defodau newid byd, gwyliau, ac ati), pa symbolau sy'n cael eu defnyddio, a beth yw eu hystyr. Os nad yw ymweliad yn bosibl, gofynnwch i arweinydd cymuned ffydd leol ymweld â'r ysgol yn bersonol neu mewn modd rhithwir. - Llenwch flwch â detholiad o wrthrychau, cardiau a phapur lapio sy'n darlunio achlysuron gwahanol, e.e. pen-blwydd, priodas, bedydd, y Nadolig, Sul y Mamau, Eid, Diwali, Diwrnod Trwynau Coch, bocs siocled Celebrations, tân gwyllt wedi'i losgi. - Pasiwch y blwch o amgylch i'r dysgwyr ddewis eitem i'w disgrifio. A allant ddyfalu pryd y byddwn yn anfon pob cerdyn neu ba bapur lapio i'w ddefnyddio? I bwy fydddech chi'n rhoi'r cerdyn a'r anrhegion?	Defnyddio'r geiriau cywir i enwi adegau arbennig ar gyfer y crefyddau a astudiwyd (y mwyafrif o blant 8 oed). Cofio rhai o'r rhesymau pam y mae symbolau'n bwysig, a gallu rhoi enghreifftiau (y mwyafrif o blant 8 oed). Disgrifio'r ffyrdd y mae symbolau'n cael eu defnyddio gan bobl grefyddol mewn dathliadau penodol o adegau arbennig, yn ogystal â myfyrir ar eu profiadau eu hunain (y mwyafrif o blant 8 oed) Ymateb yn greadigol i ddathliadau crefyddol o adegau arbennig (llawer o blant 8 oed) Dehongli ystod o ddathliadau crefyddol,	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

	Archwiliwch deimladau am ddathliadau trwy basio geiriau mewn 'Blwch Teimladau' oddi amgylch a gofyn am ddisgrifiadau o'r geiriau hynny. Bydd y blwch yn cynnwys geiriau 'teimladau', e.e.: hapus, gorfoleddus, llawen, cyffrous, siriol, sionc, breuddwydiol, meddylgar: pryd y byddwn yn teimlo'r emosionau hyn? A oes yna gysylltiad rhyngddynt ac unrhyw un o'r pethau yn y blwch dathlu? Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis anrhegion a chardiau ar gyfer pobl sy'n dathlu gwyliau a digwyddiadau gwahanol: beth y byddent yn ei roi i rywun ar gyfer priodas, pen-blwydd, enwi baban, y Nadolig, Eid, dathliad Diwali? Pam y byddent yn dewis yr anrheg hon ar gyfer yr achlysur hwnnw?	gan dynnu ar eu dysgu blaenorol a'u dealltwriaeth ddatblygol o symbolau/symbolaeth (llawer o blant 8 oed)	
--	--	---	--

Beth yw ystyr dweud bod 'goleuni'n drech na thywyllwch'?

Is-lensys: Chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn, taith bywyd

Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Symbolau o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol Diwali Goleuni Daioni/drygioni Rama Sita Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn	Beth yw ystyr credu bod goleuni'n drech na thywyllwch? - Beth y mae stori Rama a Sita yn ei olygu? Defnyddio geirfa grefyddol, cerddoriaeth, dawnys i fynegi eu dealltwriaeth o ystyr Diwali - Mynegi eu syniadau eu hunain am y gwerthoedd a'r credoau sydd wrth wraidd yr ŵyl - Cysylltu storïau, symbolau a chredoau â'r hyn sy'n digwydd yn ystod Diwali. Sut a pham y mae Hindŵiaid yn dathlu Diwali? - Cyflwynwch Diwali trwy adrodd stori Rama a Sita. Trafodwch themâu da yn goresgyn drygioni a symbolaeth goleuni a thywyllwch. Pwy yw'r arwr? Beth yw arwyddocâd lamp <i>diva</i>? Beth yw prif neges y stori? - Gwylwch fideo yn dangos dawnys Indiaidd. Siaradwch am yr hyn y gallai symudiadau'r dwylo, y breichiau a'r llygaid ei olygu. Eglurwch fod dawnys Indiaidd fel arfer yn ymwneud â chwedlau am dduwiau, duwiesau ac arwyr mewn Hindŵaeth. - Bydd y plant yn gweithio mewn grwpiau i ddyfeisio symudiadau dawnys i fynegi eiliadau allweddol yn stori Rama a Sita: gallech roi cynnig ar ddefnyddio'r chwe gair thema hyn: gwahaniad/tristwch/unigrwydd/dewrder/achub/cartref. - Dangoswch lamp <i>diva</i> i'r dosbarth a thrafodwch symbolaeth goleuni. A yw'n wir bod lamp fach yn cael gwared ar dywyllwch enfawr? Cysylltwch hyn â chrefyddau eraill lle defnyddir goleuni mewn modd symbolaidd. Crëwch baentiad graddedig sy'n symud o dywyllwch i oleuni, a'i ddefnyddio'n gefndir i farddoniaeth ar y thema goleuni. Yn ddewis arall, gallech greu continwrm o dywyllwch a goleuni ar ffurf <i>collage</i> dosbarth, gan ddefnyddio lluniau o gylchgronau, geiriau a lliwiau i fynegi eu syniadau a'u teimladau.	Defnyddio'r geiriau cywir i ddisgrifio dathliadau Diwali a'r symbolau sy'n ymwneud â'r ŵyl (y mwyafrif o blant 8 oed). Cofio beth yw Diwali a pham y mae'n ddathliad pwysig i Hindŵiaid (y mwyafrif o blant 8 oed). Egluro symbolaeth goleuni mewn perthynas â Diwali (llawer o blant 8 oed) Ymchwilio i'r modd y mae Diwali yn cael ei ddathlu yn yr ardal leol (llawer o blant 8 oed) Mynegi eu meddyliau a'u barn eu hunain ynghylch dathlu Diwali (llawer o blant 8 oed)	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydlwng arall at yr astudiaeth.	- Archwiliwch a dehonglwch ddelwedd weledol o'r dduwies Hindŵaidd Lakshmi. Gofynnwch i'r plant edrych ar y ddelwedd ac ymateb i gwestiynau penodol, e.e. Beth y mae'r ddelwedd hon yn ei ddweud wrthyh am Lakshmi? Beth y mae ei dwylo yn ei wneud a pham? Pa fath o berson yw hi yn eich barn chi? Pe gallech wneud hynny, pa gwestiynau y byddech yn eu gofyn iddi? - Anogwch y dysgwyr i nodi enghreifftiau o fywyd a phrofiad Cymreig, megis dathliadau Diwali yn yr ardal leol. - Trefnwch weithgaredd ysgrifennu sy'n galluogi'r dysgwyr i gofnodi sut a pham y mae Hindŵiaid yn dathlu Diwali. Er enghraifft, rhannwch y papur yn chwarteri: 1) Mae Hindŵiaid yn dathlu Diwali i gofio ... 2) Un peth y mae Hindŵiaid yn ei wneud i ddathlu Diwali yw ... 3) Mae goleuni'n symbol pwysig o Diwali gan ei fod yn dangos ... 4) Rwy'n meddwl bod Diwali yn ... o achos ...		
---	---	--	--

A oes yna symbolau mewn storïau crefyddol? Is-lensys: chwilio am ystyr a diben, awdurdod a dylanwad, hunaniaeth a pherthyn			
Cymwysiaidau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Symbolau o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol Noa, Arch, Beibl, Noson y Grym, y Qur'an, Sita,	Beth yr ydym yn ei wybod am Arch Noa? Noson y Grym? Dychweliad Sita? - A oes gan rai storïau crefyddol ystyr symbolaidd? Sut y gallwn weithio hynny allan? Dysgwch am ystyr symbolaidd mewn tair stori grefyddol allweddol. Storïau crefyddol a'u hystyron. - Darllenwch y stori Gristnogol am Noa a'r Arch (testun amgen ar ffurf barddoniaeth: 'Arch Noa' yn <i>Beibl Odl y Plant</i>, Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones). Dewch o hyd i'r symbolau yn y stori: yr anifeiliaid mewn parau, y cwch/blwch, yr enfys, y golomen, y ddeilen, y tir sych. Cymharwch hyn â storïau eraill yn y Beibl: a ydynt i gyd yn defnyddio symbolau? Beth yw'r rheswm am hynny tybed? (Cysylltiadau llythrennedd) ar gyfer symbolaeth. - Darllenwch y stori Islamaidd 'Noson y Grym'. Trafodwch y modd y mae gan ddigwyddiadau'r stori wedyn ystyr o ran y geiriau yn y Qur'an, a'r modd y mae'r Qur'an yn cael ei gyfieithu yn 'yr hyn sy'n cael ei ddarllen neu ei adrodd'. Roedd hwn yn ddigwyddiad yn y gorffennol y mae iddo ystyr pwerus hyd heddiw. - Darllenwch neu adroddwch y stori Hindŵaidd am ddychweliad Sita. Defnyddiwch y dysgu blaenorol y mae'r plant wedi'i wneud i sefydlu 'cadair boeth' ar gyfer Sita. Lluniwch	Gwybod bod storïau crefyddol yn aml yn llawn symbolaeth (y mwyafrif o blant 8 oed). Cofio storïau o'r astudiaethau crefyddol (y mwyafrif o blant 8 oed). Disgrifio rhai o'r symbolau o'r storïau crefyddol ac egluro peth o'r ystyr y tu ôl i'r symbolau hyn (y mwyafrif o blant 8 oed) Ymateb yn greadigol i storïau crefyddol sy'n gyfoethog o ran	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

symbolaeth, hunaniaeth, amrywiaeth, cydraddoldeb, parch Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	gwestiynau da ac ystyriwch yr atebion – pa fath o beth oedd y stori iddi hi? Defnyddiwch fformat trydariau 140 o lythrennau: Pe byddai Sita wedi bod yn drydarwr, beth y byddai wedi ei drydar ar adegau allweddol yn y stori? Mae hon yn ffordd wych o ailadrodd y stori – mae'n hwyliog, yn syml, ac iddi'r potensial i fod yn ffraeth. - Ar ôl darllen a thrafod y storïau, gosodwch luniau o rai o'r prif symbolau o'r storïau fel eu bod yn weladwy i'r dysgwyr. Ewch ati i brofi eu gallu i gofio gyntaf trwy ofyn iddynt ddiolli'r symbolau yn ôl y stori gywir. Aseswch eu dealltwriaeth ymhellach trwy ddarllen cardiau cliwiau am symbolau penodol a gwahodd un dysgwr ar y tro i ddewis llun y symbol y mae'r cerdyn yn berthnasol iddo. - Cymharwch y tair stori. Pa symbolau sy'n cael eu defnyddio yn y storïau hyn, a beth y maent yn ei olygu neu'n ei gynrychioli? Efallai yr hoffai'r dysgwyr ddylunio llun clawr ar gyfer llyfr am un o'r storïau.	ystyr symbolaidd (llawer o blant 8 oed) Dehongli ystod o ystyron gwahanol mewn perthynas â'r storïau a astudiwyd a'r symbolau ynddynt (rhai plant 8 oed)	
---	---	--	--

'Mae Duw fel Bugail': Beth y mae'r syniad hwn yn ei olygu a pham y mae llawer o bobl wrth eu bodd ag ef? Is-lensys: chwilio am ystyr a diben, awdurdod a dylanwad, hunaniaeth a pherthyn, gwerthoedd a moeseg			
Cymwysiaid CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Mae'r symbolaeth o Dduw fel bugail yn bwysig iawn i lawer o Gristnogion Syniadau/geirfa allweddol: Salm, Yr Arglwydd yw Fy Mugail, Dafydd, Goliath,	Beth yr ydym yn ei wybod am Salm 23: 'Yr Arglwydd yw Fy Mugail'? - O ran y salm enwog, Salm 23, sef testun Cristnogol ac Iddewig adnabyddus sy'n seiliedig ar drosiad am Dduw: beth y mae'n ei olygu? - Gallech efallai ddangos ffurf ar y Salm i'r dysgwyr, megis yr un hon: https://www.benandhannahdunnett.com/shop/art-prints/bible-verses/psalm-23-prints/ (yn chwilio am enghraifft Gymraeg) - Cyflwynwch drosiad crefyddol trwy ddarllen darn o'r Beibl megis 'Yr Arglwydd yw fy Mugail' (Salm 23). Gofynnwch: a yw Duw yn debyg i fugail? Ym mha fodd? A ydym ni yn debyg i ddefaid? Ym mha fodd? - Taflwch syniadau am eiriau cysylltiedig. Dewiswch y rhai a allai awgrymu pam y byddai credinwyr yn defnyddio trosiadau o'r fath. Darllenwch ac awgrymwch ystyron ar gyfer stori	Disgrifio'r symbolaeth o Dduw fel Bugail mewn Cristnogaeth (y mwyafrif o blant 8 oed) Egluro arwyddocâd y symbolaeth o Dduw fel Bugail mewn Cristnogaeth (llawer o blant 8 oed)	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn.

trosiad (llythrennedd) Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth, e.e. mae'r symbolaeth hon yn bwysig mewn Iddewiaeth hefyd	o'r Beibl, er enghraifft Dafydd a Goliath neu Daniel a'r Llewod. Beth yw ystyr y storïau hyn? A ydym ni i gyd yn 'wynebu cewri' mewn rhai ffyrdd? A all gweddi ein helpu pan fyddwn mewn perygl? Beth arall sy'n helpu? • Awgrymwch pam y mae credinwyr yn magu cryfder o'r ystyron symbolaidd yn y darnau hyn. (Gellir defnyddio darnau eraill o'r Beibl.) Tynnwch sylw'r plant at y ffaith bod Dafydd yn broffwyd yn Islam yn ogystal ag yn Frenin Iddewig, a bod ei lenyddiaeth yn y Beibl Cristnogol hefyd. Cysylltiadau â gwaith llythrennedd ar drosiadau. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai gan blant brofiad blaenorol o gyffelybiaeth a throsiad. • Cysylltwch y wers hon â llythrennedd, e.e. trefnwch weithgaredd ysgrifennu sy'n galluogi'r dysgwyr i ddatblygu a defnyddio eu trosiadau eu hunain ar gyfer Duw. Mae'r rhain oll wedi cael eu hawgrymu gan ddysgwyr oed cynradd: A yw Duw yn debyg i athro? Craig? Tortsh? Ysbyty? Tabled paracetamol? Afon? Seren? A all y dysgwyr ddewis, dyfeisio ac egluro pedwar trosiad sy'n ddiddorol yn eu barn nhw? Gallech gynnwys enghreifftiau o ddiffyg cred: 'Mae Duw yn debyg i unicorn; syniad neis ond nid yn real.' 'Mae Duw yn debyg i enfys: allwch chi fyth fynd yn agos ato.'	Deall rhai ffyrdd y mae trosiadau'n cael eu defnyddio i gyfleu syniadau mawr mewn crefyddau (llawer o blant 8 oed) Dehongli amrediad o ystyron mewn trosiadau Cristnogol ac mewn storïau megis Dafydd a Goliath (rhai plant 8 oed)	
--	--	--	--

Lampau <i>diva</i>: beth y maent yn ei olygu? Beth y maent yn ei symboleiddio? Is-lensys: chwilio am ystyr a diben			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Lampau <i>diva</i> fel symbolau mewn dathliadau Hindŵaidd o Diwali	Beth yr ydym yn ei wybod am lampau <i>diva</i>? • Lampau <i>diva</i> yn y tywyllwch: symbol bod daioni yn ennill! • Ar ddechrau'r wers hon, gallech osod canhwylau – defnyddiwch oleuadau te a siaradwch am ddiogelwch – ar fwrdd isel ar ffurf y symbol Aum, sy'n atgof da o ddysgu cynharach. Goleuwch y canhwylau pan fydd pawb yn eistedd. • Addysgwch y plant am oleuadau: a allant, mewn parau, greu gwyddor goleuadau? A ar gyfer Aum, B ar gyfer bwlb, C ar gyfer kannwyll, Ch ar gyfer Chwythu ... Dylai'r dysgwyr	Cofio stori Rama a Sita a'r modd y mae'n cael ei chofio a'i dathlu yn ystod Diwali Adnabod a disgrifio lampau <i>diva</i> ac esbonio sut y maent yn cael eu defnyddio	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau

Syniadau/geirfa allweddol: Diwali, lampau <i>diva</i>, goleuni, blwyddyn newydd/dechreuadau newydd Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	weithio ar hyn mewn parau am bum munud a chymharu'r hyn y maent wedi'i ysgrifennu. Mae goleuni ym mhobman. - Dyma chwe syniad sy'n nodi pam y mae goleuadau'n bwysig yn ystod Diwali. Ysgrifennwch nhw'n fawr ar gardiau ar gyfer amser cylch, a gofynnwch i'r plant eu graddio o 1-6 trwy gyfrwng trafodaeth: pa rai yw'r rhesymau gorau? Mae goleuadau Diwali yn bwysig o achos y canlynol: - Maent yn bert - Maent yn ein hatgoffa o stori Sita - Mae Hindŵiaid yn credu bod goleuni yn drech na thywyllwch - Mae goleuni'n arwydd ar gyfer dechrau newydd, ac mae Diwali yn flwyddyn newydd. - Mae goleuadau'n eich helpu i gredu bod goleuni yn drech na thywyllwch - Maent yn rhan o draddodiad da. - Chwythwch ar y canhwylau i'w diffodd, ac yna eu haildrefnu yn siapiau eraill i'w hail-oleuo a'u chwythu: sbiral, llygad, coeden. Gofynnwch i'r plant ar gyfer beth y mae'r rhain yn symbolau yn eu dychymyg nhw. Cynhaliwch sawl cyfnod byr o dawelwch i wyllo'r canhwylau a meddwl am y symbolau, yna gofynnwch i'r plant roi adborth i'w gilydd mewn parau neu i'r dosbarth cyfan. Mae defnyddio canhwylau yn weithgaredd diogel os yw'r plant yn cael cyfarwyddyd a than reolaeth dda – ond gwiriwch bolisi eich ysgol.	Meddwl yn ofalus am bwysigrwydd symbolaeth lampau <i>diva</i> Myfyrio ymhellach ar symbolaeth goleuni	Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn. Tair crefydd ar gael. Cysylltiadau y tu hwnt i MDPH y Dyniaethau: Cysylltiadau â'r celfyddydau mynegiannol
---	--	---	--

Sut y mae symbolau'n cael eu defnyddio mewn lleoedd cysegredig? Is-lensys: Chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Symbolau o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: Symbolau, addoliad, dathlu, eglwys, mandir, mosg Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	Beth yw ystyr symbolau mewn mannau addoli? • Symbolau mewn lle cysegredig: yr hyn sy'n bwysig • Gwnewch ddefnydd o ddarnau o ffilm fideo, pecynnau ffotograffau, teithiau rhithwir a/neu ewch â'r dysgwyr ar ymweliad. Chwaraewch 'Rwyf i'n gweld â'm llygad bach i': dylid annog y plant i ddod o hyd i symbolau posibl mewn eglwys, mosg neu fandir, a'u cofnodi. • Os byddwch yn gwneud defnydd o deithiau rhithwir, dangoswch nhw am ychydig funudau, yna gofynnwch i'r plant ddefnyddio'r cwestiynau ymholi: pwy, beth, pryd, ble, sut, os, pam. Dylent greu tudalen o gwestiynau yr hoffent eu gofyn am y daith rhithwir. • Cristnogaeth: rhoi sylw arbennig i'r Ewcharist, baneri/gwaith celf. Awgrymu ystyr y symbolau. • Islam: edrych ar y ffordd y mae enwau Duw i'w gweld mewn caligraffi, a'r ffyrdd y mae goleuni (y lleuad a'r seren) i'w gweld mewn dyluniadau. • Hindŵaeth: edrych ar rai <i>murtis</i> (cerfluniau) o'r duwiau a'r duwiesau: mae eu pwerau'n cael eu symboleiddio gan yr anifail y maent yn ei 'farchogaeth', y pethau y maent yn eu dal, a'r ffyrdd y mae eu cyrff yn well na chyrff bodau dynol – e.e. deg braich, trydydd llygad, yn gafael mewn fflam. • Beth yr ydym wedi'i ddysgu am ein symbolau? Y defnydd o symbolau: sut a pham? • Ailadroddwch yr hyn y mae'r plant wedi'i ddysgu am symbolaeth, a gofynnwch iddynt pam y maent yn bwysig. A yw'n bosibl cael ffydd heb unrhyw ystyron symbolaidd? • Y plant i gyflawni gweithgaredd myfyrio: creu eu symbol eu hunain ar gyfer eu teulu. Defnyddiwch does chwarae, clai modelu, pecyn modelu sothach, <i>collage</i> neu Lego os byddwch yn gweithio dan do, ond rhowch gynnig ar ddull 'Ysgol Goedwig' os yw'r tywydd yn sych: lluniwch y symbol o ddail a brigau ar y dddear, neu sialc ar y buarth. Pwysleiswch feddylgarwch! Bydd y plant yn dewis pedwar gair sy'n disgrifio pam y mae eu symbolau'n gweithio iddynt a pham y maent yn bwysig. • Gallai gweithgaredd 'amser cylch' arall ddilyn: rhannu'r symbolau hunangreiddig hyn a'u hystyron, gan edrych am debygrwydd rhyngddynt. Tynnwch luniau ar gyfer PowerPoint bwrdd gwyn os ydych wedi gweithio yn yr awyr agored.	Defnyddio'r geiriau cywir i nodi symbolau allweddol a ddefnyddir mewn mannau addoli Disgrifio'r modd y mae rhai symbolau allweddol yn cael eu defnyddio mewn mannau addoli Cymharu a chyferbynnu'r ffyrdd y defnyddir symbolau mewn mannau addoli Cristnogol, Hindŵaidd a Mwslimaidd Ymateb yn greadigol i ddysgu am symbolau mewn mannau addoli Dehongli amrediad o greddoau ac agweddau at symbolau yn achos o leiaf ddwy o'r crefyddau a astudiwyd	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn. Cysylltiadau y tu hwnt i MDPH y Dyniaethau: Cysylltiadau â'r celfyddydau mynegiannol

Beth yr ydym wedi'i ddysgu am symbolau Hindŵaidd, Mwslimaidd a Christnogol? Is-lensys: Chwilio am ystyr a diben, hunaniaeth a pherthyn			
Cymwysiaidau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Canlyniadau: bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Symbolau o hunaniaeth a pherthyn yn y bywyd Cristnogol, Mwslimaidd a Hindŵaidd: enghreifftiau, defnydd, ystyron. Syniadau/geirfa allweddol: Symbolau, lleuad a sêr, croes, Aum Sybsidiaredd: gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch y drefn addysgu, ac os yw'r ddemograffeg leol yn awgrymu hynny, ychwanegwch grefydd/fydolwg arall at yr astudiaeth.	Croesau, Aum, Lleuadau a Sêr: - Gellid cyflawni'r gweithgareddau hyn mewn tri grŵp gan ddefnyddio croes/Aum/ lleuad a seren enfawr, neu yn unigol, gan roi cerdyn templed i bob plentyn. - Gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau templed siâp lleuad a seren a fydd yn dangos symbolau ac ystyr o'r ffydd Fwslimaidd. Bydd angen i'r templed gynnwys syniadau a grëir trwy gyfrwng yr uned hon, a gofynnir i'r plant ddarparu rhai o'u syniadau symbolaidd eu hunain, ynghyd ag esboniadau arnynt. A fyddai'r symbol hwn yn addas i'w arddangos mewn mosg? Gosodwch y 30 o ddyluniadau lleuad a seren a wnaed gan y dosbarth i ffurfio symudyn nenfwd. - Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant hefyd: pwy yw eich goleuadau arweiniol? A allant dynnu llun pump o bobl ar seren arall, sef pobl sydd wedi bod yn oleuadau arweiniol iddynt? - Gofynnir i'r dysgwyr gwblhau templed siâp croes a fydd yn dangos symbolau ac ystyr o'r ffydd Gristnogol. Bydd angen i'r templed gynnwys syniadau a grëir trwy gyfrwng yr uned hon, a gofynnir i'r plant ddarparu rhai o'u syniadau symbolaidd eu hunain, ynghyd ag esboniadau arnynt. A fyddai'r groes hon yn addas i'w harddangos mewn addoldy Cristnogol? Gosodwch y 30 o groesau a wnaed gan y dosbarth i ffurfio symudyn nenfwd. - Gofynnwch y cwestiwn canlynol i'r dysgwyr hefyd: pwy a roddodd y gorau i rywbeth er eich mwyn chi? Gofynnwch iddynt dynnu llun o'r unigolyn sy'n dangos bod ganddo ofal amdanynt, a'r modd y mae'n dangos y gofal hwnnw. - Gofynnir i'r dysgwyr gwblhau templed wedi'i siapia fel y symbol Aum a fydd yn dangos symbolau ac ystyr o draddodiadau Hindŵaidd. Bydd angen i'r templed gynnwys syniadau a grëir trwy gyfrwng yr uned hon, a gofynnir i'r plant ddarparu rhai o'u syniadau symbolaidd eu hunain, ynghyd ag esboniadau arnynt. A fyddai'r symbol hwn yn addas i'w arddangos mewn mandir Hindŵaidd? Crëwch symudyn nenfwd o'r gwaith a wnaed gan y plant i gyd. - Gofynnwch y cwestiynau hyn i'r plant hefyd: Pa sain sy'n peri i chi ymdawelu? Cân, llais, math o gerddoriaeth? - Gofynnir i'r dysgwyr ddylunio a gwneud taflen sy'n cynnwys darluniau a thestun i egluro rhai symbolau o'r ffydd Fwslimaidd, rhai o'r traddodiadau Hindŵaidd a rhai o'r ffydd Gristnogol. Bydd yn cael ei llunio i greu taflen wybodaeth a fydd yn addas i blant y Dosbarth Derbyn neu Flwyddyn Un (gallai'r dasg fod yn un ar gyfer dysgwyr eich grŵp cyrhaeddiad	Defnyddio'r geiriau cywir i nodi symbolau allweddol sy'n cynrychioli crefyddau Disgrifio mewn termau syml ystyron o leiaf un symbol fesul crefydd a astudir yn yr uned hon Ymchwilio i ystyron y symbolau allweddol a ddefnyddir i gynrychioli'r crefyddau a astudiwyd Ymateb mewn modd creadigol i egluro pwysigrwydd y symbolau a ddefnyddir i gynrychioli'r crefyddau a astudiwyd	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Mae'n hawdd creu cysylltiadau â Daearyddiaeth (yn lleol, ledled y DU ac yn fyd-eang) ac Astudiaethau Cymdeithasol ar gyfer y cynnwys CGM hwn. Cysylltiadau y tu hwnt i MDPH y Dyniaethau: Cysylltiadau â'r celfyddydau mynegiannol

	uwch ym Mlwyddyn Dau yn gweithio mewn parau, neu ar gyfer dysgwyr Blwyddyn Tri). Rhowch y dyluniadau o'r lleuad a'r seren, y croesau a'r symbol Aum a wnaed gan y dosbarth at ei gilydd i ffurfio symudion nenfwd.		
--	--	--	--